# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Medi 2006 i'w hateb ar 27 Medi 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**1. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gwrdd â Gweinidogion y DU i drafod diwygio etholiadol. OAQ0858(LGP)

**2. Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwy o gydweithrediad o fewn llywodraeth leol. OAQ0873(LGP)

**3. Mike German (Dwyrain De Cymru):** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithredu argymhellion Adolygiad Beecham. OAQ0894(LGP)

**4. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynigion i bennu 'treth dwristiaeth' ar ymwelwyr i Gymru fel ffordd o ariannu llywodraeth leol. OAQ0868(LGP)

**5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr gwasanaethau iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin. OAQ0889(LGP)
**TYNNWYD YN ÔL**

**6. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godiadau yn y dreth gyngor er 1997. OAQ0852(LGP)

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cynlluniau i newid y system bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol 2008. OAQ0881(LGP)

**8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae llywodraeth leol yn defnyddio adroddiadau budd y cyhoedd. OAQ0866(LGP)

**9. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ailfandio'r dreth gyngor ar Ganol Caerdydd. OAQ0895(LGP)

**10. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. OAQ0871(LGP)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth llywodraeth leol ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr. OAQ0867(LGP)

**12. Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol. OAQ0876(LGP)

**13. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd ymgyrchoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud y dreth gyngor yn system fwy blaengar. OAQ0850(LGP)

**14. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd ym mhraesept yr heddlu er 1999. OAQ0859(LGP)

**15. David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio'r sectorau annibynnol a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ0897(LGP)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o blant 7 ac 11 oed: Cymru, 2006 (canlyniadau amodol). OAQ1002 (ELL)

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr ymgyrch DaY (Darllen ac Ysgrifennu). OAQ1009(ELL)

**3. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. OAQ1008(ELL) W

**4. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb y portffolio Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. OAQ0988(ELL) **W**

**5. Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael lleol gan ysgolion yng Nghymru. OAQ1012(ELL)

**6. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau TGAU a Lefel A eleni. OAQ1014(ELL)

**7. Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y drefn ar gyfer cau ysgolion. OAQ1001(ELL)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau

portffolio dros yr wyth mis nesaf. OAQ0998(ELL)

**9. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael mewn sefydliadau addysg uwch. OAQ1006(ELL) **TYNNWYD YN ÔL**

**10. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant athrawon yng Nghymru. OAQ1020(ELL)

**11. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau yn y portffolio Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. OAQ0989(ELL) **W**

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Sut mae'r Gweinidog yn hyrwyddo gwyddoniaeth ar lefel addysg uwch. OAQ0980(ELL)

**13. Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda phartneriaid mewn Llywodraeth Leol yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. OAQ1027(ELL)

**14. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod anableddau dysgu yn cael eu nodi yn gynnar mewn ysgolion ar draws Cymru. OAQ1005 (ELL)

**15. Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chymheiriaid yn undebau'r athrawon yn sgil cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. OAQ1028(ELL)